| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mehefin 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Cynhadledd Safonau 2013** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybodaeth ac adborth i Aelodau yn ymwneud â Chynhadledd Safonau 2013.

## 2 CEFNDIR

2.1 Trefnwyd cynhadledd genedlaethol gan chwe awdurdod Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri yn Venue Cymru ar 19 Ebrill 2013.

2.2 Daeth dros gant o bobl i'r Gynhadledd o awdurdodau ledled Cymru. Derbyniwyd 80 ffurflen adborth ac mae crynodeb o'r sylwadau i'w gweld yn Atodiad 1.

2.3 Agorwyd y Gynhadledd gan Dilys Phillips, Swyddog Monitro Gwynedd. Bu iddi estyn croeso cynnes i bawb i ogledd Cymru a sôn yn fras am drefn y diwrnod ac am y thema, 'Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau'.

2.4 Y prif siaradwr oedd Peter Tyndall, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bu iddo siarad am y diwygiadau sydd wedi eu gwneud i'w ganllaw ar y Cod Ymddygiad, pwysigrwydd datrys cwynion yn lleol a'r angen i gapio lefel yr indemniad a ddarperir i aelodau etholedig o ran costau cyfreithiol achosion cod ymarfer.

2.5 Cafwyd cyfres o weithdai dan y themâu canlynol:

Hyrwyddo Safonau'n Rhagweithiol

Cynnal Gwrandawiadau a Chosbau

Cofrestru Buddiannau a Gollyngiadau

Materion safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ac awdurdodau un pwrpas.

2.6 Yn ystod sesiwn y prynhawn cafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolydd o CLlLC, Swyddog Monitro Rhondda Cynon Taf a Dirprwy Swyddog Monitro Dinas a Sir Abertawe. Bu iddyn nhw sôn am eu profiadau wrth weithredu trefnau datrys lleol.

2.7 Daeth y Gynhadledd i ben gyda gair gan Mr Howie Roberts, cadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. Diolchodd i'r rheiny a drefnodd y digwyddiad a diolchodd i bawb am ddod, yn arbennig y rhai a oedd wedi teithio o bell. Mae copïau o gyflwyniadau'r Gynhadledd ar gael yn Atodiad 2.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Bod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Bod Aelodau yn ystyried pa agweddau o'r testunau a soniwyd amdanynt yn y Gynhadledd sy'n haeddu mwy o sylw ac ystyriaeth y Pwyllgor.